Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mrs Mary Burrows
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
Bangor
LL57 2PW

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Mrs Burrows,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr Adolygiad ar ben

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ymateb i'r argymhellion, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Bwrdd Iechyd yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros

beidio â chymryd camau. Daeth ymateb cyntaf y Bwrdd Iechyd i law ar 15 Mehefin 2011. Ar ôl asesu'r ymateb hwnnw, anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwyllo y byddai buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu yn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ail ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar ail ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n mynd i'r afael â phob un o'r materion y gofynnais am ragor o wybodaeth yn eu cylch. Mae hefyd yn dangos ymrwymiad dwfn i wella profiadau pobl hŷn yn yr ysbyty. Roedd yn dda gen i weld cyfraniad gan nifer o Gynghorau Sir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rwyf wedi ysgrifennu atyn nhw ar wahân.

Gan fod eich ail ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir â'm hargymhellion, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru